



PRIFYSGOL  
**BANGOR**  
UNIVERSITY

## **Polisi Trais Rhywiol a Domestig i Fyfrwyr**

<b>Swyddog Polisi</b>	<b>Uwch Swyddog Cyfrifol</b>	<b>Cymeradwywyd Gan a'r Dyddiad</b>
Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr	Grwp Tasg Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, Ebrill 2018

# Prifysgol Bangor

## Polisi Trais Rhywiol a Domestig i Fyfyrrwyr

### 1. Diffiniadau

#### Trais Rhywiol

Diffinnir trais rhywiol yn y Deyrnas Unedig gan Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003<sup>1</sup> sy'n rhestru 52 o droseddau rhywiol.

Nid yw'n derm cyfreithiol, a chaiff ei ddefnyddio fel term ymbarél i gyfeirio at amrywiol droseddau rhywiol. At ddibenion y polisi hwn, mae'r term yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig, i dreisio, ymosodiad rhywiol trwy dreiddio, ymosodiad rhywiol, aflonyddu rhywiol, stelcio, 'porn dial' a thrais domestig.

#### Trais Domestig

Diffinnir Trais Domestig gan y llywodraeth fel 'unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau sy'n cynnwys ymddygiad sy'n rheoli, gorfodi neu sy'n fygythiol, trais neu gamdriniaeth rhwng unigolion dros 16 oed sydd yn, neu sydd wedi bod yn bartneriaid neu'n aelodau o'r un teulu, beth bynnag eu rhyw neu rywioldeb.<sup>12</sup>. Gall y gamdriniaeth gynnwys cam-drin seicolegol, corfforol, ariannol neu emosiynol, ond nid yw'n gyfyngedig i hyn.

Am ragor o ddiffiniadau o'r uchod, edrychwch ar yr atodiad i'r polisi hwn.

### 2. Datganiad Polisi a Phwrpas

Mae Prifysgol Bangor wedi ymrwymo i beidio â goddef dim trais rhywiol na thrais domestig, gan ddarparu amgylchedd diogel a chefnogol lle mae pob myfyriwr yn rhydd i ddysgu, gweithio a byw heb ofn aflonyddu.

Diben y polisi hwn yw darparu dull hygyrch a chydlynol o adrodd am honiadau / digwyddiadau o drais rhywiol a thrais domestig, ac ymateb iddynt. Nod y polisi yw sicrhau bod y Brifysgol yn bodloni ei rhwymedigaethau dyletswydd gofal i bob myfyriwr.

Mae'r Brifysgol yn cydnabod nad yw cyhuddiadau ffug o drais rhywiol a thrais domestig yn fwy cyffredin nag y maent ar gyfer troseddau eraill, ond mae'r canfyddiad eu bod nhw, yn niweidio'r rhai sydd wedi dioddef.

Byddwn ni'n gwneud y canlynol:

- Ymateb yn briodol ac yn effeithiol i'r holl ddigwyddiadau y rhoddir gwybod amdanynt.
- Gweithio gyda staff, myfyrrwyr, contractwyr a phartneriaid i greu dealltwriaeth o ymddygiadau derbyniol ac annerbyniol, ac awdurdodi camau disgyblu lle bo'n briodol;

---

<sup>1</sup> Deddf Troseddau Rhywiol 2003 - [www.legislation.gov.uk](http://www.legislation.gov.uk)

<sup>2</sup> Cylchlythyr y Swyddfa Gartref 003/2013 - Diffiniad newydd y llywodraeth o drais a cham-drin domestig, Chwefror 2013

- Sicrhau dealltwriaeth ymhlith aelodau'r brifysgol y gall digwyddiadau o drais rhywiol a thrais domestig fod yn drosedd a all arwain at arestio a charchar.
- Adnabod y cysylltiad rhwng ymddygiad cyfrifol a phrofiad dysgu pleserus, a herio'r ymddygiadau negyddol sy'n gysylltiedig â thrais rhywiol fel stereoteipio rhywedd, rhywioli a gwrthrycholi menywod, homoffobia a thrawsffobia.
- Cymryd o ddifrif ein cyfrifoldeb cyfreithiol dros iechyd, diogelwch a lles ein myfyrwyr, staff ac ymwelwyr, a cheisio darparu amgylchedd diogel, iach y gall pawb gael budd ohono;
- Cefnogi staff â chyfrifoldebau gofal bugeiliol a chydabod bod ganddynt gyfrifoldeb i hyrwyddo'r dull gweithredu 'peidio â goddef dim trais rhywiol a thrais domestig' a chyfrannu'n effeithiol at ymateb yn briodol i adroddiadau.
- Rhoi gwybodaeth i fyfyrwyr i'w helpu ynghylch pa gamau y gallant eu cymryd os ydynt yn dioddef trais rhywiol neu drais domestig, eu galluogi i adrodd amdano a darparu cefnogaeth briodol.
- Casglu data perthnasol i alluogi monitro honiadau o drais rhywiol yn ddiennw.

Mae Rheoliadau Cyffredinol y Brifysgol yn gofyn i fyfyrwyr beidio ag ymddwyn mewn ffordd sy'n anghyfreithlon mewn unrhyw ffordd, yn anonest, yn niwsans neu'n aflonyddu ar unigolyn neu unigolion eraill (yn cynnwys myfyriwr neu fyfyrwyr eraill yn y brifysgol neu unrhyw sefydliad arall, neu aelodau'r cyhoedd). Mae gan bob myfyriwr gyfrifoldeb cyfreithiol i gymryd gofal rhesymol am eu diogelwch eu hunain ac eraill. Fel rhan o'u contract gyda'r Brifysgol, y cytunir arno ar yr adeg y maent yn derbyn cynnig i astudio yn y Brifysgol, mae'n rhaid i bob myfyriwr gydymffurfio â'r rheoliadau hyn.

Mae Cod Ymddygiad i fyfyrwyr wedi'i gynnwys yn yr atodiad i'r Rheoliadau Cyffredinol ar gyfer yr holl fyfyrwyr, a gellir ei weld yn y Llawlyfr Myfyrwyr ac yma:  
<https://www.bangor.ac.uk/regulations/regulations/documents/BUReg13-v201601.pdf>

### 3. Sgôp y polisi

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob myfyriwr sydd wedi'i gofrestru ar hyn o bryd yn y Brifysgol, sy'n profi trais rhywiol neu drais domestig, a'r staff y gelwir arnynt i ymateb i ddigwyddiadau. Mae'n berthnasol boed a yw myfyrwyr ar eiddo'r brifysgol neu rywle arall ar fusnes prifysgol neu weithgareddau astudio, yn cynnwys eiddo a reolir ar ran y brifysgol gan drydydd parti (fel neuaddau preswyl). Os bydd adroddiad honedig yn cynnwys myfyriwr Prifysgol Bangor mewn unrhyw fodd, yna bydd y Brifysgol yn gweithredu fel y bo'n briodol.

Mae'r polisi hefyd yn berthnasol i Undeb y Myfyrwyr, sy'n gorff annibynnol sy'n cynnal ac yn rheoli ei faterion ei hun yn unol â'i gyfansoddiad ei hun.

### 4. Canllawiau i fyfyrwyr

#### 4.1 Adrodd am Ddigwyddiad o Drais Rhywiol neu Drais Domestig i'r Brifysgol - Camau Cychwynnol

Gall myfyrwyr sy'n profi neu'n gweld unrhyw drais rhywiol roi gwybod am y digwyddiad yn gyfrinachol i unrhyw aelod staff y mae'r myfyriwr yn teimlo'n gyffyrddus â hwy. Mewn llawer o

achosion, gallai hyn fod yn diwtor personol, yn warden neuadd neu'n aelod o staff Gwasanaethau Myfyrwyr. Os ydych chi wedi gweld neu wedi cael gwybod am ddigwyddiad o drais rhywiol sy'n ymwneud â rhywun rydych yn ei adnabod, mae'n hanfodol cael caniatâd y dioddefwr cyn gwneud adroddiad.

Gall myfyrwyr adrodd am ddigwyddiad o drais rhywiol neu drais domestig ar unrhyw adeg, ond mae'n bwysig, os yw'n ymarferol, adrodd arno cyn gynted â phosib. Lle bydd angen cymryd camau i fynd i'r afael â mater yn syth o bosib (er enghraifft, os yw person yn risg iddynt eu hunain neu i eraill) dylid ei hysbysu i'r aelod staff sydd ar gael gyntaf.

Yn gyntaf, dylai'r myfyriwr amlinellu i'r aelod staff y maent yn datgelu'r digwyddiad, natur yr hyn y maent wedi'i brofi neu wedi'i dystio, ond nid oes raid iddynt o anghenraid fynd i fanylion ar y cam hwn os nad ydynt yn dymuno gwneud hynny. Gellir hysbysu'r myfyriwr i siarad ag aelod staff yn y Tîm Cefnogi Myfyrwyr sydd wedi cael hyfforddiant arbennig mewn cefnogi myfyrwyr sydd wedi dioddef trais rhywiol.

Ar ôl ymdrin ag unrhyw risgiau uniongyrchol i'r myfyriwr sy'n adrodd neu unrhyw bersonau eraill, bydd yr aelod staff sy'n derbyn yr adroddiad yn sefydlu unrhyw anghenion cymorth uniongyrchol ac yn trafod eu teimladau cychwynnol gyda'r myfyriwr ynghylch sut maen nhw'n dymuno ymdrin â'r digwyddiad. Ar y cam hwn, dylent roi gwybodaeth i'r myfyriwr am gefnogaeth arbenigol allanol, yn ogystal ag egluro bod staff arbenigol yn y Tîm Cefnogi Myfyrwyr ar gael.

Gellir dod o hyd i wybodaeth am lwybrau cyfeirio yn yr atodiad i'r polisi hwn ynghyd â manylion cyswllt y Tîm Cefnogi Myfyrwyr a'r Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr.

## **4.2 Y Gwahanol Ddewisiadau Adrodd a sut gall y Brifysgol ymateb**

Bydd y Brifysgol bob amser, yn gwrando'n ofalus ar anghenion y myfyriwr sy'n adrodd am ddigwyddiad o drais rhywiol neu drais domestig, ac yn gwrando arnynt o ran yr hyn y maent am ei wneud nesaf. Ni fydd yr aelod staff yn perswadio neu'n pwysu ar y myfyriwr i ddewis un dewis dros un arall, ond bydd yn ei gwneud hi mor hawdd â phosib iddynt wneud eu hadroddiad. Mae'r adran ganlynol yn rhestru nifer o wahanol lwybrau adrodd ac yn amlinellu cwmpas ymateb y Brifysgol. Wrth ymateb i adroddiadau am drais rhywiol a domestig, bydd y Brifysgol yn parchu dymuniadau'r myfyrwyr sy'n adrodd, oni bai fod yna bryderon pwysicach ynghylch risgiau uniongyrchol o niwed i'r myfyriwr neu i eraill.

### **4.2.1 Opsiwn 1 - Adrodd i'r Brifysgol a / neu Adrodd i'r Heddlu**

Os yw myfyriwr yn dymuno rhoi gwybod i'r heddlu am y mater, bydd y Brifysgol yn eu cefnogi'n llawn. Os bydd yr Heddlu yn gofyn i'r Brifysgol am wybodaeth o gofnod myfyriwr, byddai'n rhaid i'r myfyriwr gysylltu â'r Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfiaeth i roi eu caniatâd, fel eu bod yn cadw rheolaeth dros ba wybodaeth y maent am ei rhannu gyda'r Heddlu. Os nad yw myfyriwr yn dymuno rhannu unrhyw wybodaeth a gedwir gan y Brifysgol yna byddai'r Brifysgol yn aros am gyfarwyddiadau ynghylch rhyddhau gwybodaeth trwy orchymyn llys.

Yn ystod ymchwiliad troseddol, ni fydd y Brifysgol fel rheol yn gallu cymryd camau disgyblu yn erbyn y tramgwyddwr honedig nes bod ymchwiliad llawn a phriodol a threial posib wedi dod i ben. Mae hyn oherwydd bod yn rhaid rhoi blaenoriaeth i'r broses droseddol. Yn ystod yr amser hwn fodd bynnag, gall y Brifysgol gymryd camau rhagofalus megis diarddel troseddwr honedig neu eu gwahardd o rai adeiladau neu weithgareddau.

Gall y Brifysgol ystyried y mater dan ei Gweithdrefnau Disgyblu ar ôl cwblhau'r broses droseddol, waeth beth fo'r canlyniad, os yw'n ystyried a yw rheolau a rheoliadau'r brifysgol wedi eu torri. Mae'r Cod Ymddygiad ar gael yma:

<https://www.bangor.ac.uk/regulations/regulations/documents/BUReg13-v201601.pdf>

Dylid nodi y gall y myfyriwr roi gwybod i'r Heddlu am y mater heb gyflwyno adroddiad i'r Brifysgol.

#### 4.2.2 Opsiwn 2 - Adrodd i'r Brifysgol ond nid i'r Heddlu

Efallai na fydd myfyriwr yn dymuno adrodd i'r Heddlu, ond efallai y bydd yn dymuno adrodd am ddigwyddiad i'r Brifysgol i'w ystyried o dan ei Gweithdrefnau Disgyblu. Fodd bynnag, mae natur a chwmpas proses ddisgyblu fewnol a phroses droseddol yn gwbl wahanol. Yn y broses droseddol rhaid i honiad gael ei brofi y tu hwnt i amheuaeth resymol, a'r sancsiwn mwyaf difrifol yw carchar. Mae proses ddisgyblu'r Brifysgol yn fater sifil yn seiliedig ar honiad bod rheolau a rheoliadau'r Brifysgol wedi eu torri. Bydd yn rhaid profi'r honiad ar gydbwysedd tebygolrwydd a'r brif gosb y gellir ei chymryd yw diarddel yn barhaol o'r Brifysgol. Ni all y Brifysgol ddyfarnu a gyflawnwyd trosedd ai peidio gan nad oes ganddi'r hawl i wneud hynny. Fodd bynnag, gall ddyfarnu a yw myfyriwr wedi torri ei rheolau a'i rheoliadau.

Fodd bynnag, bydd y Brifysgol wedi'i chyfyngu yn ei phwerau ymchwilio, ac mewn rhai achosion, efallai na fydd tystiolaeth ddigonol i sefydlu ar gydbwysedd tebygolrwydd bod y digwyddiad a adroddwyd wedi digwydd. Fodd bynnag, efallai y bydd digon o dystiolaeth i sefydlu bod math arall o ymddygiad annerbyniol wedi digwydd. Mae'r Cod Ymddygiad i'w weld yma:

<https://www.bangor.ac.uk/regulations/regulations/documents/BUReg13-v201601.pdf>

#### 4.2.3 Adrodd am y Digwyddiad yn Ddienw

Efallai y bydd y myfyriwr yn dymuno adrodd am y digwyddiad yn ddiennw at ddibenion monitro yn unig, heb ddymuno i'r Brifysgol ymchwilio i'r mater ymhellach. Bydd manylion y mater yn cael eu cadw ar ffeil a bydd gwybodaeth yn cael ei monitro'n rheolaidd i nodi unrhyw dueddiadau posibl mewn adroddiadau.

## 5. Canllawiau i'r Holl Staff

Mae gan bob aelod staff gyfrifoldeb i ymateb cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, i faterion trais rhywiol neu drais domestig y maent yn dyst iddynt neu'n derbyn adroddiadau amdanynt yn unol â dymuniadau'r dioddefwr. Mewn rhai achosion lle mae perygl difrifol o niwed i'r myfyriwr neu eraill, efallai y bydd angen i'r Brifysgol fynd yn groes i ddymuniadau'r dioddefwr, ond dylai staff ymgynghori â'r Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfiaeth cyn cymryd y cam hwn.

### 5.1 Hyrwyddo Amgylchedd Diogel

Mae gan bob aelod staff gyfrifoldeb i hyrwyddo amgylchedd diogel, ac os ydynt yn dyst i weithred o drais rhywiol neu drais domestig, yna mae'n rhaid iddynt weithredu fel y bo'n briodol i fynd i'r afael ag ef.

Gallai hyn gynnwys y canlynol:

- Gwirio a oes angen cymorth ar fyfyriwr i dynnu eu hunain o sefyllfa lle mae trais rhywiol neu drais domestig yn digwydd, neu ar fin digwydd;

- Ymyrryd i atal digwyddiad o drais rhywiol neu drais domestig, neu ei gwneud hi'n glir bod yr ymddygiad a welwyd yn annerbyniol. Yn achos aflonyddwch rhywiol, er enghraifft, efallai y bydd yn briodol dweud wrth yr unigolyn i roi'r gorau i'r ymddygiad, neu ofyn iddynt adael y sefyllfa.
- Cysylltu ag aelod staff uwch, swyddogion diogelwch y brifysgol a/neu'r Heddlu pan nad yw aelod staff yn teimlo'n ddiogel i roi sylw uniongyrchol i'r ymddygiad maent yn ei weld.

## 5.2 Ymateb i Adroddiadau o Drais Rhywiol neu Drais Domestig

### 5.2.1 Egwyddorion Cyffredinol

Efallai y bydd myfyriwr yn cysylltu ag unrhyw aelod o staff sydd â phryderon ynghylch trais rhywiol neu drais domestig.

Dylai'r holl staff wneud y canlynol:

- Sicrhau y gellir cynnal y sgwrs gyda'r myfyriwr yn breifat a heb i ddim dorri ar ei thraws. Gwrando'n ofalus a chydabod yr hyn mae'r myfyriwr yn ei ddweud, gan ofalu peidio â gwneud sylwadau ynglŷn â barn y myfyriwr am ddigwyddiadau.
- Penderfynu a oes risg uniongyrchol i'r myfyriwr neu eraill, ac os felly, gweithredu'n briodol gydag unrhyw gefnogaeth angenrheidiol gan eu rheolwr neu adran ddiogelwch y brifysgol (Mewnol 333, Allanol 01248 382795) a/neu'r Heddlu (galwadau brys: 999, galwadau nad ydynt yn rhai brys: 101 neu 0300 330 0101) i sicrhau amgylchedd diogel i'r myfyriwr ac eraill.
- Esbonio y cynghorir i'r myfyriwr siarad ag aelod staff sydd wedi'i hyfforddi i ymdrin â datgeliadau ac os bydd yn cytuno, cysylltu gydag aelod staff hyfforddedig yn unol â'r cyfarwyddyd yn yr atodiad i'r polisi hwn

Mewn amgylchiadau lle mae aelod staff yn derbyn datgeliadau o drais rhywiol neu ddomestig, yna dylid dilyn y weithdrefn ganlynol.

- Cymryd gofal wrth ailadrodd unrhyw beth yn ôl i'r myfyriwr, a gwneud yn siŵr eu bod yn defnyddio'r un iaith y mae'r myfyriwr wedi ei defnyddio i adrodd y mater. *Cofiwch y gall yr Heddlu ofyn am unrhyw nodiadau a gymerwyd yn nes ymlaen fel rhan o ymholiad troseddol.* Cysurwch y myfyriwr bod ganddynt yr hawl i deimlo'n ddiogel ac y bydd y brifysgol yn gefnogol.
- Sefydlu a oes gan y myfyriwr unrhyw anghenion cymorth ar unwaith, a helpu'r myfyriwr i gael y cymorth sydd ei angen arnynt. Mae manylion llawn i'w gweld yn yr Atodiad i'r polisi hwn. Efallai y bydd angen triniaeth feddygol ar y myfyriwr hefyd, ac yn dibynnu ar natur yr adroddiad, e.e. trais rhywiol, gellir adfer tystiolaeth hanfodol ar y cam hwn, ac os felly, gellir hysbysu'r myfyriwr y gallant gyflwyno adroddiad i Amethyst, sefydliad sy'n gallu hwyluso'r gwaith o gasglu tystiolaeth heb wneud unrhyw adroddiad i'r heddlu, gan gadw'r holl opsiynau adrodd yn agored, a rhoi amser i'r myfyriwr wneud penderfyniad ynghylch a ddylid adrodd i'r heddlu ai peidio. Gall aelodau staff drefnu apwyntiad, trefnu tacsï i'r myfyriwr a sicrhau bod ganddynt rywun i fynd gyda nhw pe byddent yn dymuno hynny. Gellir cysylltu ag Amethyst yn [www.amethystnorthwales.org.uk](http://www.amethystnorthwales.org.uk) neu ar 08081563658

- Sefydlu gyda'r myfyriwr sut maen nhw'n dymuno ymdrin â'r digwyddiad, gan gofio, y gallai gymryd peth amser i'r myfyriwr wneud penderfyniad ar hyn, ac efallai y byddent yn dymuno siarad ag aelod staff sydd wedi'i hyfforddi i drafod datgeliadau, neu gefnogi myfyrrwyr cyn iddynt wneud penderfyniad. Byddwch yn ymwybodol o'r gwahanol opsiynau adrodd sydd i'w gweld yn Adran 4.3 y polisi hwn. Os yw'r myfyriwr yn dymuno mynd at yr Heddlu, a dylid eu cefnogi bob amser i wneud hynny, dylai'r aelod staff sy'n derbyn y datgeliad hwyluso hyn trwy ddarparu'r manylion cyswllt perthnasol fel y gellir eu gweld yn yr atodiad i'r polisi hwn a chael mynediad, os oes angen, at ffôn.
- Egluro i'r myfyriwr bod eu diogelwch uniongyrchol ac anghenion cefnogi wedi eu cyflawni, a'u bod yn deall gyda phwy y gallant gysylltu os ydynt, neu pan maent, yn dymuno cael rhagor o gefnogaeth. Anogwch nhw i fynd i gyfarfod, neu hwyluso cyfarfod, gydag aelod staff Gwasanaethau Myfyrrwyr / aelod staff a hyfforddwyd i drafod datgeliadau neu ymateb i ddigwyddiadau o drais rhywiol neu drais domestig. Os nad oes gan y myfyriwr le diogel i aros - cysylltwch â Swyddfa'r Neuaddau (01248 382667) neu'r Swyddfa Tai Myfyrrwyr (01248 382034). Y tu allan i oriau arferol, gellir cysylltu ag Uwch Warden drwy ffonio Swyddfa Diogelwch y Brifysgol ar 01248 382795.
- Yn dilyn y datgeliad, dylai'r aelod staff adrodd y mater, gan gynnwys pa wybodaeth bynnag y mae'r myfyriwr yn dymuno ei rhannu, i'r Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfiaeth, gan ddilyn y Weithdrefn Adrodd a nodir yn Adran 5.2.2.
- Os yw'r aelod staff yn teimlo bod risg i'r myfyriwr neu i eraill nes golygu efallai y bydd raid i'r Brifysgol fynd yn groes i ddymuniadau'r myfyriwr i beidio ag adrodd am y digwyddiad i'r Heddlu, yna dylid gofyn am gyngor gan y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfiaeth i sefydlu camau gweithredu priodol.
- Os yw'r aelod staff yn amau bod y myfyriwr a gyhuddir hefyd yn cael ei gyflogi gan y Brifysgol mewn unrhyw fodd, rhaid hysbysu AD ar unwaith er mwyn cael eglurhad, a chytunir ar ymateb priodol rhwng y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfiaeth a'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol.
- Ni ddylai'r aelod staff geisio datrys y pryderon drwy gysylltu â'r unigolyn y gwnaed yr honiad yn ei erbyn. Gall gweithred o'r fath fod yn achos o dorri'r drefn a all ddirymu unrhyw gamau gweithredu disgyblu dilynol.
- Gall staff a allai fod wedi derbyn adroddiad neu ddatgeliad o drais rhywiol gael cefnogaeth gan staff Gwasanaethau Myfyrrwyr, gan gynnwys y Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrrwyr. Gellir dod o hyd i fanylion cyswllt yn yr atodiad i'r polisi hwn.

### 5.2.2 Adrodd i'r Brifysgol i gamau gweithredu gael eu cymryd dan ei Gweithdrefnau Disgyblu

Pan fydd y myfyriwr yn dymuno cyflwyno adroddiad o'r digwyddiad i'r Brifysgol, gellir cyflwyno hyn mewn amrywiol fformat naill ai'n ysgrifenedig (i aelod staff trwy lythyr neu e-bost) neu'n bersonol (mewn cyfarfod wyneb yn wyneb ag aelod staff). Yna mae'n rhaid i'r aelod staff sy'n ymateb adrodd y mater yn ysgrifenedig (gorau oll, mewn adroddiad a gydlofnodir gan y myfyriwr, ac ym mhob achos, gyda chaniatâd llawn y myfyriwr) i'r Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfiaeth a fydd wedyn yn hysbysu'r adrannau / aelodau staff priodol i alluogi ymateb priodol.

Bydd digwyddiadau a adroddir i'r Brifysgol, lle mae'r myfyriwr yn dymuno i'r Brifysgol gymryd camau i fynd i'r afael â'r mater dan ei Gweithdrefnau Disgyblu, yn cael eu hystyried o dan yr Ordinhad ar gyfer Disgyblu Myfyrwyr.


### 5.2.3 Monitro Digwyddiadau/Adroddiadau o Drais Rhywiol


Bydd y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfiaeth yn cadw cofnod o bob adroddiad o drais rhywiol a domestig a bydd yn adrodd yn rheolaidd i'r Grŵp Trais wedi'i seilio ar Rywedd, ac wedyn i Gyngor y Brifysgol. Ar ddiwedd pob semester, bydd data'n cael eu harchwilio i nodi unrhyw dueddiadau mewn ymddygiad, er enghraifft unrhyw ddigwyddiadau eraill yn achos yr unigolion dan sylw, lleoliadau lle gallai rhywbeth fod wedi digwydd, neu natur yr adroddiadau a wneir. Dylai unrhyw dueddiadau gael eu trafod gan banel sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Gwasanaethau Myfyrwyr, y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfiaeth, y Prif Warden neu'r rhai a enwebwyd ganddynt.



# Bangor University Sexual Violence Policy

## Guidance for those Receiving a Disclosure of Sexual Violence





## Atodiad 2

# Polisi Prifysgol Bangor ar Drais Rhywiol a Thrais Domestig

## Ffynonellau Cefnogaeth a Gwybodaeth i'r rhai a effeithir gan Drais Rhywiol a/neu Drais Domestig

### Cefnogaeth i Fyfyrwyr Prifysgol Bangor

Mae rhai staff y Gwasanaethau Myfyrwyr wedi'u hyfforddi'n arbennig i ymateb i ddatgeliadau o drais rhywiol. Gall y Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr gynghori myfyrwyr a staff ar wasanaethau cefnogaeth lleol a chenedlaethol, a darparu cefnogaeth arbenigol i'r rheiny sy'n profi unrhyw fath o gamdriniaeth neu aflonyddwch.

Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr, Helen Munro  
Ffôn: 01248 388021 E-bost: [h.munro@bangor.ac.uk](mailto:h.munro@bangor.ac.uk)  
Gwasanaethau Cefnogi Myfyrwyr Ffôn: 01248 382024  
Gwe: [www.bangor.ac.uk/inclusive-community/our-safe-campus/index.php.en](http://www.bangor.ac.uk/inclusive-community/our-safe-campus/index.php.en)

### Gwasanaeth Cwmsela Myfyrwyr Prifysgol Bangor

Mae gwasanaeth cwmsela ar gael i bob myfyriwr sy'n dioddef problemau neu anawsterau. Os ydych angen siarad am brofiad sy'n eich poeni chi, gallwch siarad ag un o'n cynghorwyr hyfforddedig mewn awyrgylch diogel a chyfrinachol.

Ffôn: 01248 388520 E-bost: [counselling@bangor.ac.uk](mailto:counselling@bangor.ac.uk)  
[www.bangor.ac.uk/student-services/counselling/index.php.en](http://www.bangor.ac.uk/student-services/counselling/index.php.en)

### Y Tu Allan i Oriau Arferol ym Mhrifysgol Bangor

Y tu allan i oriau swyddfa, gall staff gysylltu â staff Diogelwch y Brifysgol sy'n gallu cysylltu â'r personél perthnasol

### Heddlu Gogledd Cymru

Mewn argyfwng: 999  
Ar gyfer pob adroddiad ac ymholiad arall: 101

### Galw Iechyd Cymru

Ffôn: 0845 46 47  
[www.nhsdirect.wales.nhs.uk](http://www.nhsdirect.wales.nhs.uk)

### Ysbyty Gwynedd

Prif switsfwrdd: 01248 384384

Clinig GUM, Uned Menai, Bangor: 01248 385385  
Llinell Integredig Apwyntiadau Clinig Iechyd Rhywiol / Atal Cenhedlu: 01248 384054

## **Amethyst (Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhyw Gogledd Cymru)**

Mae Amethyst yn sefydliad sy'n rhoi cymorth, cefnogaeth a gwybodaeth i unigolion sydd wedi cael eu treisio neu wedi dioddef ymosodiad rhyw, yn ddiweddar neu yn y gorffennol. Gall Amethyst ddarparu gwasanaethau heb unrhyw reidrwydd i roi gwybod am drosedd.

Llinell Gymorth: 0808 156 3658 E-bost: [bcu.amethyst@wales.nhs.uk](mailto:bcu.amethyst@wales.nhs.uk)  
Gwe: [www.north-wales.police.uk/amethyst\\_2012/english/index.html](http://www.north-wales.police.uk/amethyst_2012/english/index.html)

## **RASA Gogledd Cymru**

Mae Canolfan Cefnogaeth Trais a Cham-driniaeth Rhywiol Gogledd Cymru yn sefydliad cydnabyddedig sy'n cynnig cefnogaeth arbenigol annibynnol i alluogi i bobl weithio drwy eu profiad o drais a/neu drais rhywiol.

Llinell Gymorth: 0808 80 10 800 Swyddfa: 01286 669267 E-bost: [info@rasawales.org.uk](mailto:info@rasawales.org.uk)  
Gwe: [www.rasawales.org.uk](http://www.rasawales.org.uk)

## **Survivor's Trust Cymru**

Survivor's Trust Cymru yw swyddfa Survivor's Trust yng Nghymru, sef sefydliad ambarél cenedlaethol y DU, ar gyfer dros 141 o sefydliadau sy'n rhoi cefnogaeth yng nghyswllt achosion o dreisio, trais rhywiol a cham-drin rhywiol yn ystod plentyndod ledled y DU ac Iwerddon.

Llinell Gymorth Camdriniaeth Rywiol a Thrais TST Cymru, sy'n darparu cefnogaeth, gwybodaeth a chynghor am ddim ac yn gyfrinachol i ddioddefwyr, goroeswyr a'u ffrindiau a'u teuluoedd.

Llinell Gymorth: 0808 801 0818  
Cymorth drwy negeseuon testun: 07860 022956  
E-bost: [support@survivorstrustcymru.org](mailto:support@survivorstrustcymru.org)  
Gwe: [www.survivorstrustcymru.org](http://www.survivorstrustcymru.org)

## **Rape Crisis England and Wales**

Dewch o hyd i'ch gwasanaethau arbenigol 'Rape Crisis' agosaf.

Llinell gymorth genedlaethol 'Rape Crisis': 0808 802 9999 (Rhwyng hanner dydd - 2.30pm a 7pm - 9.30pm unrhyw ddiwrnod o'r flwyddyn a hefyd rhwng 3pm a 5pm yn ystod yr wythnos am gefnogaeth gyfrinachol a / neu wybodaeth am eich gwasanaethau agosaf).

## **Cymorth i Fenywod Cymru**

WWA yw'r sefydliad ambarél cenedlaethol sy'n cynrychioli Grwpiau Cymorth i Fenywod Lleol sydd wedi'u lleoli ledled Cymru. Mae ein grwpiau sy'n aelodau yn darparu gwasanaethau uniongyrchol i ferched a phlant sydd wedi, neu yn, profi camdriniaeth domestig.

Llinell Gymorth 'Live Fear Free': 0808 8010 800  
Gwe: [www.welshwomensaid.org](http://www.welshwomensaid.org)

## **BAWSO**

Mae BAWSO yn rhoi cefnogaeth i Gymru gyfan, ac wedi ei achredu gan Lywodraeth Cymru. Mae'n darparu gwasanaethau arbenigol i bobl o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig y mae cam-drin domestig a phob math arall o gamdriniaeth yn effeithio arnynt.

Ffôn: 0800 731 8147

Gwe: [www.bawso.org.uk/](http://www.bawso.org.uk/)

## **Muslim Women's Helpline**

Mae'r 'Muslim Women's Helpline' yn rhoi cyngor arbenigol i ferched Mwslimaidd sydd wedi dioddef trais rhywiol.

Ffôn: 0800 999 5786

Testun: 07415 206 936

E-bost: [info@mwnhelpline.co.uk](mailto:info@mwnhelpline.co.uk)

Gwe: [www.mwnhelpline.co.uk](http://www.mwnhelpline.co.uk)

## Polisi Prifysgol Bangor ar Drais Rhywiol i Fyfyrrwyr

### Diffiniadau o Drais Rhywiol

(Wedi'i gymryd o Adroddiad Tasglu Prifysgolion y DU: archwilio trais yn erbyn menywod, aflonyddu a throseddau casineb sy'n effeithio ar fyfyrwyr prifysgol, Hydref 2016.)

#### Trais Rhywiol

Diffinnir trais rhywiol yn y Deyrnas Unedig gan Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 sy'n rhestru 52 o droseddau rhywiol.

Nid yw'n derm cyfreithiol, a chaiff ei ddefnyddio fel term ymbarél i gyfeirio at amrywiol droseddau rhywiol. At ddibenion y polisi hwn, mae'r term yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i dreisio, ymosodiad rhywiol trwy dreiddio, ymosodiad rhywiol, aflonyddu rhywiol, stelcio, 'porn dial' a thrais domestig.

#### Trais Domestig

Diffinnir Trais Domestig gan y llywodraeth fel 'unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau sy'n cynnwys ymddygiad sy'n rheoli, gorfodi neu sy'n fygythiol, trais neu gamdriniaeth rhwng unigolion dros 16 oed sydd yn, neu sydd wedi bod yn bartneriaid neu'n aelodau o'r un teulu, beth bynnag eu rhyw neu rywioldeb'. Gall y gamdriniaeth gynnwys ffactorau seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol neu emosiynol, ond nid yw'n gyfyngedig i hyn. Mae merched yn profi trais domestig yn anghymesur.

Nid oes trosedd benodol o drais domestig na cham-drin domestig yn bodoli yng nghyfraith Lloegr na'r Alban. Fodd bynnag, efallai y bydd llawer o ymddygiadau sy'n cael eu hamlygu fel rhan o berthynas ddifrifol ynddynt eu hunain yn droseddau'n erbyn y gyfraith, gan gynnwys troseddau rhywiol.

#### Ymddygiad sy'n Rheoli neu'n Rheoli drwy Orfodaeth

Mae cymryd rhan dro ar ôl thro, neu'n barhaus, mewn ymddygiad sy'n rheoli, neu'n rheoli drwy orfodaeth, tuag at bartner (neu gyn bartner) neu aelod teuluol, sy'n cael effaith ddifrifol arnynt, yn drosedd dan adran 76 Deddf Troseddau Difrifol 2015. Mae 'effaith ddifrifol' yn golygu ei fod yn achosi i B ofni, ar o leiaf ddau achlysur, y bydd trais yn cael ei ddefnyddio yn erbyn B, neu mae'n dychryn neu'n achosi gofid difrifol i B, sy'n cael effaith andwyol sylweddol ar weithgareddau arferol bob dydd B (megis cymdeithasu, patrymau gweithio, dirywiad mewn ieched meddwl neu gorfforol). Mae'r gosb yn dangos pa mor ddifrifol y mae'r ymddygiadau hyn yn cael eu gweld gan y gyfraith, gyda chosb o hyd at 5 mlynedd o garchar.

#### Trais

Mae trais yn drosedd ac wedi'i diffinio dan Adran 1 Deddf Troseddau Rhywiol 2003. Mae'n drosedd os bydd pidyn yn mynd i mewn i fagina, anws neu geg, heb ganiatâd. Mae'r ffaith fod yn rhaid i bidyn fynd i mewn yn golygu, yn ôl y gyfraith, mai dyn yn unig a all dreisio. Gall dynion a menywod gael eu treisio. Os bydd menyw yn gorfodi dyn i fynd i mewn iddi, ni fyddai hyn yn dreisio, ond fe'i cyhuddir fel trosedd rhywiol arall. Gall dyn dreisio merch trwy roi ei bidyn yn ei cheg heb ganiatâd. Os yw menyw yn cyflawni rhyw geneuol ar ddyn heb ei ganiatâd, ni fyddai hyn yn dreisio, ond fe'i cyhuddir fel trosedd rhywiol arall. Y ddeddfryd fwyaf am dreisio yw carchar am oes, sy'n dangos difrifoldeb y drosedd yn ôl y gyfraith.

### Ymosodiad Rhywiol trwy Dreiddio

Mae ymosodiad rhywiol drwy dreiddio yn drosedd ac wedi'i diffinio dan Adran 2 Deddf Troseddau Rhywiol 2003. Gall dyn neu fenyw gyflawni'r drosedd, ac mae'n ofynnol i ran o'r corff (fel bysedd neu dafod) neu unrhyw beth arall (fel botel neu ddirgrynwr) dreiddio'r fagina neu'r anws heb ganiatâd. Felly, byddai menyw sy'n treiddio fagina menyw arall gyda'i bysedd heb ganiatâd yn cael ei chyhuddo o'r drosedd hon. Sylwch fod hyn yn wahanol i dreisio, ac nid yw'r drosedd hon yn cynnwys mynd i mewn i'r geg. Y ddedfryd fwyaf am y drosedd hon yw carchar am oes, sy'n dangos difrifoldeb y drosedd yn ôl y gyfraith.

### Ymosodiad Rhywiol

Mae ymosodiad rhywiol yn drosedd ac wedi'i diffinio dan Adran 3 Deddf Troseddau Rhywiol 2003. Gall dyn neu fenyw gyflawni'r drosedd ac mae'n ofynnol cyffwrdd heb ganiatâd lle mae'r cyffwrdd yn rhywiol. Er enghraifft, byddai cyffwrdd bronau merch neu organau rhywiol neu ben ôl rhywun, neu gusanu rhywun heb iddynt ddymuno hynny, yn ymosodiad rhywiol. Gall y cyffwrdd fod trwy ddillad neu unrhyw beth arall (fel cynfas gwely) ac mae'n cynnwys cyffwrdd wedi'i wneud gydag unrhyw ran o'r corff neu unrhyw beth arall. Mae'r term Ymosodiad Rhywiol weithiau'n cael ei ddefnyddio'n anghywir fel term cyffredinol i gynnwys neu nodi troseddau rhywiol eraill. Y ddedfryd fwyaf am ymosodiad rhywiol yw 10 mlynedd o garchar.

### Aflonyddu Rhywiol

O dan Adran 26 (2) Deddf Cydraddoldeb 2010, diffinnir aflonyddu rhywiol fel ymddygiad diangen o natur rywiol sydd â phwrpas i bob effaith o ymyrryd ag urddas y sawl y digwydd iddo, neu greu amgylchedd bygythiol, gelyniaethus, diraddiol, gwarthus neu dramgwyddus. Mae'n ymddygiad gwaharddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, lle gwneir iawn am y camwedd yn y llysoedd sifil.

Nid oes trosedd penodol o aflonyddwch rhywiol yn nghyfraith Cymru a Lloegr. Fodd bynnag, gall ymddygiad y cyfeirir ato fel 'aflonyddu rhywiol' fod yn drosedd o dan wahanol rannau o ddeddfwriaeth, yn dibynnu ar natur a difrifoldeb y digwyddiad. Mae'r mathau o ymddygiadau sy'n achosi aflonyddwch rhywiol yn amrywiol a gallant gynnwys: aflonyddwch ar lafar megis chwibanu, gweiddi pethau sarhaus, sylwadau rhywiol, ensyniadau rhywiol, dweud jôcs a storïau rhywiol, lledaenu sibrydion am fywyd rhyw rhywun; aflonyddwch di-eiriau fel edrych i fyny ac i lawr ar rywun, arddangos lluniau o natur rywiol, gan anfon negeseuon e-byst gyda chynnwys rhywiol, gwneud ystumiau rhywiol a gofyn am gymwynasau rhywiol. Bydd aflonyddwch rhywiol yn gorgyffwrdd â'r gyfraith droseddol ar droseddau rhywiol unwaith y bydd unrhyw gyffwrdd â'r person arall dan sylw, er enghraifft, fflyrtian rhywiol corfforol nas dymunir, cusanu, cyffwrdd, gafael rownd rhywun, mwytho, anwesu dillad, corff, gwallt rhywun a rhwbio yn erbyn rhywun, lle mae'r cyffwrdd yn rhywiol. Felly gall daro rhywun yn ysgafn ar y pen ôl fod yn ymosodiad rhywiol ac aflonyddwch rhywiol, a gellid mynd ar drywydd hyn yn y llysoedd troseddol fel ymosodiad rhywiol. Efallai y bydd rhai mathau o aflonyddu rhywiol yn gorgyffwrdd â throseddau eraill megis aflonyddu a stelcian a phornograffi dial.

### Aflonyddu a Stelcio

Er nad oes trosedd o aflonyddwch rhywiol, mae'r gyfraith droseddol yn nodi troseddau ynghylch aflonyddu a stelcio, a than Ddeddf Amddiffyn rhag Aflonyddu 1997 (a ddiwygiwyd gan Ddeddf Amddiffyn Rhyddid 2012). Mae'r troseddau hyn yn mynnu bod cwrs o ymddygiad, sy'n golygu o leiaf

ddau achlysur (gan gynnwys aflonyddwch llafar ac ar-lein), sy'n gyfystyr ag aflonyddu neu stelcio, wedi digwydd. Gwaherddir aflonyddu, er na chaiff ei ddiffinio, ond mae'n cynnwys dychryn neu achosi gofid i'r person arall. Mae'r Ddeddf yn rhoi enghreifftiau o ymddygiad stelcio, megis dilyn, gwylio, ysbïo, monitro defnydd o gyfathrebiadau electronig, ymyrryd ag eiddo arall, cyhoeddi deunydd sy'n ymwneud â pherson neu sy'n honni ei fod yn dod gan rywun. Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi troseddau yn cynnwys pobl yn ofni trais, a stelcio sy'n gwneud i berson ofni trais, neu sy'n achosi braw neu ofid difrifol sy'n cael effaith andwyol sylweddol ar ei (g)weithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

#### Aflonyddu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, aflonyddwch yw ymddygiad diangen sy'n gwneud i rywun deimlo wedi'i dramgwyddo, ei frawychu neu ei fychanu. Mae'n anghyfreithlon (mewn cyfraith sifil) os yw'n digwydd oherwydd, neu'n gysylltiedig, ag un neu ragor o'r nodweddion gwarchoddedig canlynol: Oed, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth.

#### Pornograffi Dial

Diffinnir 'Pornograffi Dial' fel datgelu ffotograffau a ffilmiau rhywiol preifat gyda'r bwriad o achosi gofid, ac mae'n drosedd o dan Adran 33 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd 2015. Mae'n drosedd rhannu ffilm neu ffotograffau rhywiol preifat o rywun arall heb eu caniatâd, a chyda'r bwriad o achosi gofid i'r person hwnnw.